Hydref 25 – Mawrth 26

Iechyd a Diogelwch

Darparwyd mewn partneriaeth â Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth Cyswllt Ffermio.

PARTNERIAETH DIOGELWCH AR FFERMYDD CYMRU

Digwyddiadau

- Fe wnaethom fynychu 3 noson Clwb CFfI lle bu ein llysgenhadon yn ymgysylltu â'r aelodau ac yn dangos arferion diogel ar y fferm trwy drafodaeth, fideos a chyflwyniad.
- Fe wnaethom fynychu 2 ddiwrnod agored ar Fferm newydd Cyngor Ceredigion, gyda 500 o bobl yn bresennol gan gynnwys ysgolion o'r ardal leol. Fe wnaethom gynnal cwis lle gallai'r rhai a oedd yn bresennol ennill helmed ATV.
- Roedd rhanddeiliaid allweddol hefyd yn bresennol, gan gynnwys UAC, NFU, CCF a'r CFfI lleol.

Sioeau

Cawsom flwyddyn lwyddiannus arall yn y Ffair Aeaf!

- Fe wnaethom ymgysylltu â channoedd o ymwelwyr, ffermwyr a rhanddeiliaid. Lansiwyd y gêm 'Jengyd' newydd ym mrecwast Materion Gwledig CFfI Cymru. Mae 'Jengyd' yn gêm 'ystafell ddianc' mewn bocs, sydd wedi'i hanelu at bobl ifanc, ac mae'r cyfan yn seiliedig ar arferion Diogelwch Fferm.
- Parhaodd arwyddion fferm, llyfrau gweithgareddau a llyfrynnau gwybodaeth i fod yn boblogaidd iawn eto eleni.
- Bu i Alun Elidyr, un o'n Llysgenhadon, helpu ar y stondin a gwnaeth Bob y Ci ymddangosiadau hefyd.

Marchnata

- Parhawyd i hyrwyddo Diogelwch ATV gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol, hysbyseb teledu S4C
- Lansiwyd Jengyd, ystafell ddianc mewn bocs.
- Ymddangosodd Glyn Davies ar raglen Bwletin Amaeth y BBC
- Jengyd wedi'i gynnwys mewn eitem ar y newyddion – S4C Newyddion
- Stori Fwyd Cymru

Hyfforddiant Achrededig

1299 Mae 1,299 o gyrsiau hyfforddiant wedi'u cwblhau yn y cyfnod hwn, mae enghreifftiau o gyrsiau'n cynnwys:

Cymorth cyntaf yn y gweithle
Codi a chario
ATV eistedd i mewn
ATV eistedd arno
Gyrru tractor
Tynnu trelar ar y ffordd
Ymwybyddiaeth o weithio ar uchder ac asesu risg
Cloddiwr 360 gradd

"Gwiriadau dyddiol - mwy hyderus i'w gwneud. 'Mwy hyderus i wybod sut i ymdrin â gyrru ar."

"Yn ystod yr hyfforddiant hwn, dysgon ni sut i amddiffyn fy hun/fy nheulu a'r cyhoedd yn ac o amgylch ein fferm."
(cwrs ATV)

E-ddysgu

2979 Mae 2,979 o fodiwlau wedi'u cwblhau yn ystod y cyfnod hwn, mae enghreifftiau'n:	Unigolion a gwblhaodd y modiwl
Uned orfodol: Iechyd a Diogelwch – Rheoli risg mewn coedwigaeth a ffermio	306
Uned orfodol: Rheoli cnofilod	287
Iechyd a diogelwch mewn amaethyddiaeth	247
Uned orfodol: Diogelwch plaladdwyr	79
Iechyd a diogelwch ym maes garddwriaeth	22
Iechyd meddwl mewn amaethyddiaeth	20

Rhwydwaith Ein Ffermydd

Fe wnaeth mabwysiadu technoleg coler buwch ddileu'r angen i ddefnyddio teirw a lleihau'r angen i wirio gwartheg yn bersonol ar fferm Tyddyn Cae, gan greu amgylchedd gwaith mwy diogel i ffermwyr a staff tra'n cynnal ffrwythlondeb y fuches ac yn darparu arbediad cost o £17,735 a thaliad am y dechnoleg o 2.3 mlynedd tra'n sicrhau iechyd a diogelwch uchel parhaus i'r tîm fferm.

Agrisgôp

Iechyd a Diogelwch gan gynnwys Iechyd Meddwl

Edrychodd 4 cyfarfod Agrisgôp ar elfennau o iechyd a diogelwch, gan gynnwys iechyd meddwl.

Roedd y cyfarfodydd yn cynnwys:

1. Adlewyrchodd y grŵp ar ymweliadau a siaradwyr diweddar, gan rannu'r newidiadau yr oeddent wedi'u rhoi ar waith a meysydd ar gyfer gwelliant pellach. Roedd y drafodaeth yn cynnwys sut y gall ymddygiadau effeithio ar iechyd meddwl, pwysigrwydd sgyrsiau agored, a defnyddio sgiliau gwrando a holi gwell i reoli sefyllfaoedd heriol.
2. Adolygodd y sesiwn sut roedd ffermwyr yn teimlo bod y prosiect yn symud ymlaen, y rhwystrau yr oeddent yn eu hwynebu, a'r hyn oedd yn galluogi cynnydd. Fe wnaeth trafodaeth agored am TB buchol, gan gynnwys graddfeydd risg TB, ymweliadau bioddiogelwch, a phrofion gwaed, ganiatáu i ffermwyr rannu pryderon a chynorthwyo ei gilydd, rhywbeth a gydnabuwyd fel rhywbeth buddiol i'w hiechyd meddwl. Canolbwyntiodd y sesiwn ar leihau TB, cynnal buches iach, a gwella iechyd a chynhyrchiant anifeiliaid.

Mentora

Iechyd a Diogelwch gan gynnwys Iechyd Meddwl

Roedd 7 sesiwn fentora yn ymdrin ag iechyd a diogelwch

Mae dyfyniadau'n cynnwys:

1. Roedd ymweliadau fferm a thrafodaethau yn ymdrin ag opsiynau pori gwartheg, rheoli glaswelltir mewnbwn isel, rheoli diogelwch coed ac adfer gwrychoedd.
2. Adolygodd y sesiwn y safonau iechyd a diogelwch sy'n ofynnol ar gyfer busnesau fferm a chontractio, gan gynnwys dogfennaeth bresennol megis asesiadau risg a datganiadau dull. Trafodwyd y cymwysterau gofynnol ar gyfer gweithio gyda sefydliadau megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a CNC, ochr yn ochr â dogfennaeth iechyd a diogelwch ychwanegol a ofynnir gan gleientiaid, gan gynnwys arolygiadau safle, adroddiadau archwilio, cofnodion Dylunio a Rheoli Adeiladu, a'r angen posibl am achrediad ISO 14001 ac ISO 9001.

Grwpiau Trafod

Yn ystod y cyfnod hwn roedd cynnwys cyfarfodydd 13 o Grwpiau Trafod yn ymdrin ag Iechyd a Diogelwch yn fanwl.

Roedd y cyfarfodydd yn ymdrin â:

- **Ymwybyddiaeth o Iechyd a Diogelwch ar gyfer cyflogwyr**
- **Rheoli amser**
- **Ymdrin â da byw yn ddiogel**

Gwasanaeth Cynghori

Gwnaed 34 o hawliadau Cynghori o dan y categori technegol Iechyd a diogelwch.

Roedd rhai enghreifftiau o'r achosion yn cynnwys:

Cynllunio Busnes | Isadeiledd y fferm | Cynllunio Olyniaeth | Iechyd Anifeiliaid

www.llyw.cymru/cyswlltffermio

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**